

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 28 MAWRTH 2017.

PRESENNOL:

Cynghorydd Mrs. C. L. McDermott - Cadeirydd

Cynghorwyr: J. Abbott M.B.E., Alan Benson, Mrs S. Conrad-Smith, Ms A. D. McCann, Geoff McGinn, Stephen Magee, Eric Roberts, H. B. Rowlands ac D. Rhys Thomas J. P.

Cynghorwyr Sir: Jeff Evans a Trefor Lloyd Hughes M.B.E

1. **YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd E. Gwynfor Williams.
2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB:** Cyng. Dafydd Rhys Thomas and Stephen Magee eitem 8.
3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL:**
Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau fod y cofnodion yn gywir ar ôl newid rhif 8 (Adroddiad Cynghorydd).
4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
 - 4.1 **Malurion Contractwr** - Nodwyd bod contractwyr yn dal i golli malurion ar y lôn.
 - 4.2 **Maes Parcio Bae Trearddur**
Gofynnwyd i'r clerc atgoffa'r Cyngor Sir am gyflwr y maes parcio.
 - 4.3 **Goleudy Ynys Lawd**
Dywedodd Cyng. Stephen Magee fod Grŵp Treftadaeth Caergybi yn edrych ar y posibilrwydd o redeg y goleudy ac fe awgrymwyd iddo y byddai'n syniad da i drefnu cyfarfod anffurfiol gyda chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned i rannu syniadau.
Penderfynwyd: Y byddai Cyng. Stephen Magee a Cyng. Dafydd Rhys Thomas yn cyfarfod â'r Grŵp i gael gwybod beth sydd ganddynt mewn golwg.
5. **GOHEBIAETH:**
 - 5.1 **Pwyllgor Safonau - Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru:**
Cyflwynwyd - nodyn briffio a oedd yn cynnwys crynodeb o'r penderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyfarnu Cymru.
 - 5.2 **Pwyllgor Safonau - Nodyn Briffio ar Ddatgan a Chofrestru Diddordebau:**
Cyflwynwyd a nodwyd. - Roedd yn ofynnol i. ddod â'r Nodyn Briffio yma, yn ogystal â chopi o'r côd ymddygiad diwygiedig, i sylw holl aelodau yn dilyn yr etholiad ym mis Mai.

Arwyddwyd.....(Cadeirydd)

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 28 MAWRTH 2017.

5.3 Caniatâd Arbennig:

Cyflwynwyd a nodwyd - nodyn briffio gan y Pwyllgor Safonau yn rhoi gwybod bod newidiadau deddfwriaethol wedi eu gwneud mewn perthynas â'r seiliau statudol y gall Cyngorwyr ddibynnu arnynt er mwyn gwneud cais am Ganiatâd Arbennig os oes ganddo/ganddi ddiddordeb sy'n rhagfarnu.

5.4 Arbrawf Gorfodaeth

Cyflwynwyd a nodwyd - Hysbysiad gan CSYM eu bod yn bwriadu cynnal treial gyda chwmni Kingdom - sef cwmni gorfodi allanol fydd yn dosbarthu cosb benodedig o £75 am daflu sbwriel a gadael baw cŵn.

5.5 Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned:

Nodwyd fod y cyfarfod nesaf ar 29ain Mehefin 2017

5.6 Un Llais Cymru:

Cyflwynwyd a nodwyd : Rhaglen ar gyfer cyfarfod 30 Mawrth 2017.

5.7 Cylich lythyr Neuadd y Farchnad:

Cyflwynwyd a nodwyd.

5.8 Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd 2017-2022 Drafft:

Cyflwynwyd a nodwyd.

5.9 Adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy:

Cyflwynwyd a nodwyd.

5.10 Teithio Llesol Cymru (2013):

Cyflwynwyd a nodwyd - gwahoddiad i 'Sesiwn Galw Heibio' a sesiwn casglu gwybodaeth ar 3 Ebrill 2017 yng Nghapel Ebeneser Stryd y Bont, Llangefni.

6. SAFLE HAMDDEN:

6.1 Cyflwynwyd: Cadarnhad gan y Cyngor Sir eu bod wedi cael ei cyflwyno gyda rhybudd fod y Perchennog wedi cymryd meddiant o'r safle drwy ailfynediad heddychlon. Cadarnhawyd hefyd fod y safle i gyd o dan yr un brydles a dylai mynediad i'r lle chwarae fod wedi ei gyfyngu pan roddwyd rhybudd ar y safle, gyda'r giât yn cael ei gadwyno a'i chloi'r un fatha'r giât arall.

Cyflogwyd cyfreithwyr allanol i weithredu ar ran y Cyngor Sir ac roeddent yn disgwyl cadarnhad o ddyddiad ar gyfer gwrandawriad llys gyda'r bwriad o geisio gwyrddroi'r rhybudd ac i barhau â'r brydles bresennol.

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDUR 6.30 NOS FAWRTH 28 MAWRTH 2017.

Penderfynwyd: Gan nad oedd y perchennog wedi cloi'r giât na rhwystro mynediad at yr offer chwarae cytunwyd y dylai'r Cyngor Cymdeithas leihau pob risg drwy barhau i yswirio a chynnal y safle a sicrhau fod yr offer chwarae yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Gofyn i'r Cyngor Sir am ddyddiad pendant ar gyfer Gwrandawriad Llys.

7. Cyfarfod Cyhoeddus - Adborth

Credai'r Cadeirydd bod y cyfarfod ar 15 Mawrth 2017 wedi cael derbyniad da a diolchodd i'r Aelodau oedd wedi presenoli eu hunain ar y funud olaf i'w chefnogi, diolchodd i Cyng. Bill Rowlands yn benodol am gadw nodiadau o'r cyfarfod.

Fodd bynnag, credai y bod lle i wella, roedd angen cyfathrebu yn fwy effeithiol a rhoi mwy o amser i baratoi fel bod pawb sy'n cymryd rhan yn hollol glir o'u rôl.

8. CYFRANIADAU:

Cyflwynwyd: Llythyr gan Ysgol Gymraeg y Morswyn yn gofyn am gyfraniad tuag at y gost o fynd a phlant i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai 2017.

Penderfynwyd: i gyfrannu £250.

Mynegodd Cyng. Jeff Evans ei werthfawrogiad o'r cyfraniad a wnaed gan y Cyngor Cymuned tuag at ei ymgyrch i godi arian ar gyfer 4 Elusennau Canser.

9. ADRODDIADAU CYNGHORWYR: dim

10. CYLLID, GWEINYDDU A RHEOLI RISG:

10.1 Adroddiad Ariannol Misol:

Roedd y clerc ar fin cau cyfrifon ar gyfer 2016/17 a byddai'n rhoi copi i pob Aelod cyn gynted y byddai'r datganiadau banc i gyd i law.

10.2 Cytunwyd i benodi Mr John Roberts i gynnal archwiliad mewnol ar y cyfrifon cyn eu cyflwyno i'r Archwilwyr Allanol.

10.3 TALIADAU - Penderfynwyd: Cadarnhau a thalu'r canlynol:-

1448	E. M. Owen (Mawrth.)	Cyflog	£343.58
1449	H.M.R.C (Mawrth.)	TWE	£85.90
1450	E. H. Parry	Torri glaswellt a llwybrau	£600.00
1452	Ysgol Gymraeg Morswyn	Rhodd	£250.00

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 28 MAWRTH 2017.

11. DOGFENNAU STATUDOL

Cafwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid sef: Cyng. Jack Abbott M.B.E, Alan Benson, Ms Anwen McCann a Eric Roberts cyn y prif gyfarfod o 28 Mawrth 2017 i drafod dogfennau diwygiedig - Rheolau Sefydlog (Mawrth 2017) a rheoliadau ariannol (Mawrth 2017).

11.1 Rheolau Sefydlog (fersiwn Mawrth 2017) - Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid, penderfynwyd y byddai Cyngor Cymdeithas Trearddur yn mabwysiadu'r ddogfen hon heb eu diwygio.

11.2 Rheoliadau Ariannol (March 2017 version) - yn dilyn trafodaeth gyda'r Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid:

1. Nad oedd angen i'r Clerc / SAC awdurdodi taliadau, mewn argyfwng na fel arall ar ran y Cyngor;
2. Nad oedd angen cadw cyfleuster arian mân;
3. Bydd y Clerc / SAC cael 3 amcan gyfrif ar gyfer unrhyw gyflenwad arfaethedig lle mae'r gwerth yn is na £ 3,000 ac uwch £ 1,000 oni bai fod amgylchiadau yn golygu bod y Cyngor Cymdeithas yn penderfynu ei bod yn briodol i roi heibio'r gofyniad hwn;
4. Dylai'r cyfeiriadau at drefniadau cerdyn debyd bancio a bancio ar-lein gael eu cadw a'u trafod yn ddiweddarach pe bai angen i fabwysiadu dulliau hyn o wneud taliadau;
5. Bod y Pwyllgor Cyllid yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i oruchwyllo arferion cyfrifo;

Penderfynwyd derbyn yr argymhellion a bod y Cyngor Cymdeithas yn mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol (Mawrth 2017).

12. UNRHYW FATER BRYD ARALL:

12.1 Adroddwyd nad oedd y gwastraff a gesglir gan y gwirfoddolwyr yn cael eu casglu gan y Contractwr.

Penderfynwyd: i hysbysu'r Cyngor Sir.

13. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO:

13.1 46C584 Rhianfa, Lôn St Ffraid, Bae Trearddur - gwrthodwyd.

14. CEISIADAU CYNLLUNIO

14.1 46C147J Tan y Graig, Bae Trearddur.

Cais o dan Adran73 i ddiwygio amod (02)o ganiatad cynllunio rhif

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDUR 6.30 NOS FAWRTH 28 MAWRTH 2017.

46C147K/VAR (addasu ac ehangu) er mwyn caniatu cynllun diwydiedig.

14.2 46C273D Uwch y Don, Ravenspoint Road, Bae Trearddur.

Cais llawn ar gyfer cynlluniau diwygiedig i godi annedd a garej breifat – dim digon o wybodaeth i wneud sylwadau.

14.3 46C585 Hapusle, Ravenspoint Road, Bae Trearddur.

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu'r storfa gwch presennol - dim gwrthwynebiad.

14.4 46C14Y/1/VAR Plots 20-22, Cliff Hotel Centre, Bae Trearddur.

Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (01) (gweithredu'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau) o ganiatâd rhif 46C14S/1/MIN (newidiadau i gynllun sydd wedi ganiatau) er mwyn newid dyluniad - dim gwrthwynebiad.

15. 46C254B Ael y Bryn, Lôn Penrhingarw, Bae Trearddur.

Cais amlinellol ar gyfer dymchwel yr annedd bresennol ynghyd a chodi 2 annedd newydd yn cynnwys manylion llawn am y fynedfa - dim sylwadau. .

15.1 46C321B Cerrig Gwyn / Greystones, Lôn St. Ffraid, Bae Trearddur.

Cais amlinellol ar gyfer codi annedd yn cynnwys manylion llawn am y fynedfa, gosodiad a'r raddfa - dim sylwadau.

16. CYFARFOD NESAF: 25 Ebrill 2017 - 7 o'r gloch.